



# DYSGU DRWY CHWARAE

## Cywion sortio lliwiau

Mae'r gweithgaredd hwyliog hwn i'r Pasg yn 'ddau mewn un'. Yn gyntaf, bydd eich plentyn yn addurno eu cyw fydd yn helpu eu sgiliau echddygol manwl a chreadigrwydd. Ar ôl gorffen y cywion gallwch chwarae gemau fydd yn eu helpu i adnabod lliwiau.

### Byddwch angen:

- Papur neu gerdyn
- Pinâu marcio
- Siswrn
- Glud crefft
- Soser/plât papur
- Papur sidan (sawl lliw gwahanol)

# DYSGU DRWY CHWARAE - Cywion sortio lliwiau

## Dull:

- Defnyddiwch y pin marcio, tynnwch lun sawl cyw ar y papur. Peidiwch ag anghofio tynnu llun eu nodweddion
- Torrwch y cywion allan
- Torrwch y papur sidan yn sgwariau bach (neu gall eich plentyn dorri darnau bach)
- Rhowch glud crefft ar y soser/plât papur
- Gofynnwch i'ch plentyn gresian y papur sidan
- Gofynnwch iddynt roi'r papur sidan yn y glud ac yna ei osod ar gyw
- Ar gyfer y gemau cyfateb lliwiau yn nes ymlaen, gwnewch yn siŵr fod pob cyw gydag un lliw yn unig arno
- Unwaith y bydd y cywion wedi sychu gallwch chwarae gemau gyda nhw

## Pam ddim?

- Gofynnwch i'ch plentyn adnabod lliw arbennig?
- Gofynnwch i'ch plentyn gyfateb y cywion o'r un lliw gyda'i gilydd?

## Manteision y gweithgaredd hwn:

- Bydd didoli a chyfateb lliwiau yn datblygu eu cydlyniant a chanolbwyntio



**RHYBUDD:**  
Mae angen goruchwyliaeth ofalus wrth ddefnyddio siswrn a glud!